**Teitl: Maddeuant**

<table>
<tr><td>Teitlau</td><td>Maddeuant - Cristnogaeth</td><td>Maddeuant - Bwdhaeth</td><td>Maddeuant - Islam</td></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="3">YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'<br>Drwy ddysgu am Faddeuant yn y byd fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Maddeuant - Cristnogaeth</th><th>Maddeuant - Bwdhaeth</th><th>Maddeuant - Islam</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes**</td></tr>
</table>

| Teitlau | Maddeuant - Cristnogaeth | Maddeuant - Bwdhaeth | Maddeuant - Islam |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Dial/dialedd - Y teimlad o fod isio talu’n nôl i rhywun am y cam maen nhw di neud â chi e.e. Os oes 'na rywun yn fy nharo i yna dwi’n trio eu taro’n ôl a hynny mewn ffordd waeth.<br><br>Holocost - Ymdrech Hitler i lofruddio holl Iddewon Ewrop yn ystod yr Ail Ryfel Byd.<br><br>Pedr – Seimon Pedr, un o ddisgyblion cyntaf Iesu.<br><br>Dameg – stori a gwers ynddi.<br><br>Efengyl Mathew - un o’r pedwar llyfr yn y Testament Newydd sy’n rhoi hanes bywyd a dysgeidiaeth Iesu. Y tri arall yw Marc, Luc ac Ioan.<br><br>Pechu – troseddu yn erbyn Duw neu berson arall.<br><br>Cyfrifon - y cofnod ariannol mewn busnes o’r hyn sydd o ran arian wedi ei dderbyn a’i wario.<br><br>Edifar/edifarhau - teimlo’n ddrwg eich bod wedi dweud neu wneud rhywbeth niweidiol i berson arall a hynny’n arwain at ofyn am faddeuant.<br><br>Apartheid y system wleidyddol o gadw pobl wyn a chroenddu arwahan ac o drin pobl | Tawelwch Mewnol - Teimlad meddyliol ac ysbrydol o fod mewn heddwch.<br><br>Bwdha – un sydd wedi ei oleuo gyda gwybodaeth a dealltwriaeth arbennig; gall gyfeirio at unigolyn arbennig fel sylfaenydd y grefydd Bwdhaeth.<br><br>Dalai Lama – un o 14 arweinydd ysbrydol arbennig Bwdhyddion Tibet.<br><br>Dull di-drais – gweithredu mewn ffordd sydd ddim yn gwneud niwed i berson arall.<br><br>Gwobr Heddwch Nobel - Gwobr flynyddol a roddir i berson sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i heddwch. | Allah - Duw<br><br>Tosturiol - Teimlo neu ddangos cydymdeimlad a phryder am eraill.<br><br>Amrywiol - Pobl o wahanol gefndiroedd cymdeithasol ac ethnig.<br><br>Eithafiaeth - Y weithred o gyflawni gweithredoedd trwy unrhyw fodd i fynegi safbwyntiau sy'n cyfiawnhau neu'n clodfori trais terfysgol.<br><br>Maddeuant - Y weithred neu'r broses o faddau neu gael maddeuant.<br><br>Ffwndamentaliaeth - Symudiad neu agwedd sy'n pwysleisio ymlyniad caeth a llythrennol at set o egwyddorion sylfaenol.<br><br>Hadith - Cofnod o eiriau a gweithredoedd y Proffwyd Islamaidd Muhammad.<br><br>Islam - Un o brif grefyddau'r byd.<br><br>Mwslim - Un sy'n dilyn Islam.<br><br>Heddwch - Cyflwr o ddim gwrthdaro.<br><br>Tangnefedd Iddo - Dywedir gan Fwslimiaid ar ôl dweud enw’r Proffwyd Muhammad, fel arwydd o barch. |

| Teitlau | Maddeuant - Cristnogaeth | Maddeuant - Bwdhaeth | Maddeuant - Islam |
|---|---|---|---|
| | groenddu yn annheg. System oedd yn bodoli yn Ne Affrica ac yn rhai o daleithiau UDA. | | Qur'an - Y llyfr sanctaidd Islamaidd.<br><br>Cymod - Adfer perthnasoedd cyfeillgar.<br><br>Shahada - Un o Bum Piler Islam, sef y gred mewn un Duw (Allah).<br><br>Pum piler Islam - Pum cred greiddiol Islam. |
| Geirfa | Dial/dialedd<br><br>Holocost<br><br>Crefydd Gristnogol<br><br>Pedr<br><br>Dameg<br><br>Efengyl Mathew<br><br>Dyled<br><br>Croeshoeliad<br><br>Anthony Walker<br><br>Gee Walker<br><br>Llofruddio<br><br>Nelson Mandela<br><br>De Affrica | Tawelwch Meddwl<br><br>Bwdha<br><br>Dalai Lama<br><br>Mynach<br><br>Arweinydd Ysbrydol<br><br>Dull di-drais<br><br>Gwobr Heddwch Nobel | Allah<br><br>Tosturiol<br><br>Amrywiol<br><br>Eithafiaeth<br><br>Maddeuant<br><br>Ffwndamentaliaeth<br><br>Hadith<br><br>Islam<br><br>Mwslim<br><br>Heddwch<br><br>Tangnefedd Iddo<br><br>Qur'an |

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Maddeuant - Cristnogaeth</th><th>Maddeuant - Bwdhaeth</th><th>Maddeuant - Islam</th></tr>
<tr><td></td><td>Apartheid<br><br>Arlywydd<br><br>Carchar<br><br>Cenedl yr Enfys</td><td></td><td>Cymod<br><br>Shahada<br><br>Pum piler Islam<br><br>Sheol</td></tr>
<tr><td>Tasgau ymestynnol</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Tasgau dosbarth</td><td>1. Trafodwch mewn grwpiau ac fel dosbarth a yw hi’n bosib maddau heb anghofio.<br><br>2. Lluniwch flog ar y ddysgeidiaeth Gristnogol am faddeuant. A yw’n disgwyl gormod gan Gristnogion?<br><br>3. Ymchwiliwch i hanes unigolion eraill sydd wedi maddau i rai gyflawnodd droseddau erchyll y neu herbyn. Lluniwch fywgraffiad byr o’r person.<br><br>4. A oes yna rai troseddau na ellir neu na ddylid byth eu maddau? Ysgrifennwch erthygl yn nodi eich barn.<br><br>5. Holwch eich cyd-ddisgyblion am eu barn ar faddeuant. Gwnewch fideo o’u hymateb.</td><td>1. Mae’n ymddangos fod rhai pethau mewn Bwdhaeth sy’n amhosib eu maddau. Gwnewch ddwy golofn – Pethau i’w maddau / Pethau anodd eu maddau. Rhowch resymau dros eich dewis o golofn.<br><br>2. Ymchwiliwch ymhellach i mewn i’r teitl Dalai Lama. Casglwch wybodaeth am y ffordd y mae’r arweinydd yma’n cael ei ddewis.<br><br>3. Ers oed ifanc iawn roedd y Dalai Lama wedi cael ei fagu i fyw bywyd fel mynach. Beth yw natur bywyd mynach mewn Bwdhaeth, yn arbennig yn Nhibet? Ydy’r math yma o fywyd yn apelio?<br><br>4. Mae pobl Tibet yn dilyn math arbennig o grefydd Bwdhaeth. Casglwch wybodaeth am y wlad a’r hyn sy’n arbennig am bobl Tibet.</td><td>1. Faint ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau yma? Ysgrifennwch eich ateb allan o 10, gydag 1 yn “anghytuno’n llwyr” a 10 yn “cytuno’n llwyr”.<br>- Ystyr cyfiawnder yw ‘llygad am lygad’ (dial)<br>- Os yw pobl yn wirioneddol edifar, dylid maddau iddyn nhw.<br>- Mae rhai gweithredoedd na ddylid byth eu maddau.<br>- Mae pobl sy'n gwneud cam ag eraill yn cael yr hyn maen nhw'n ei haeddu.<br>- Dylech faddau, ond byth anghofio.<br>- Mae maddeuant yn rhywbeth a wnawn i ni ein hunain, nid i eraill.<br><br>Dewch o hyd i ragor o dasgau ar waelod y ddogfen.</td></tr>
</table>

| Teitlau | Maddeuant - Cristnogaeth | Maddeuant - Bwdhaeth | Maddeuant - Islam |
|---|---|---|---|
| | 6. Lluniwch holiadur i bobl yn eich cymuned ar faddeuant a dadansoddwch y data a gesglir. | 5. Derbyniodd y Dalai Lama Wobr Heddwch Nobel yn 1989. Pam y credwch ei fod wedi haeddu derbyn y wobr arbennig yma?<br><br>6. Ceisiwch lunio hanner dwsin neu fwy o ddyfyniadau eich hun sy'n esbonio lle canolog maddeuant mewn bywyd.<br><br>7. Chwiliwch am glipiau fideo lle mae'r Dalai Lama'n sôn am faddeuant. Ceisiwch ddadansoddi ei neges yn y clipiau hyn; e.e.<br><br>https://www.youtube.com/watch?v=deJeN36EnY8<br><br>https://www.youtube.com/watch?v=TaxZLcREoh4<br><br>https://www.youtube.com/watch?v=etRLJttD9Rc | |
| **Adnoddau pellach** | | | |

**2.**

| Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau yma? Ysgrifennwch eich ateb allan o 10, gydag 1 yn "anghytuno'n llwyr" a 10 yn "cytuno'n llwyr" | 1-10 |
|---|---|
| Ystyr cyfiawnder yw 'llygad am lygad' (dial) | |
| Os yw pobl yn wirioneddol edifar, dylid maddau iddyn nhw | |
| Mae rhai gweithredoedd na ddylid byth eu maddau | |
| Mae pobl sy'n gwneud cam ag eraill yn cael yr hyn maen nhw'n ei haeddu | |
| Dylech faddau, ond byth anghofio | |
| Mae maddeuant yn rhywbeth a wnawn i ni ein hunain, nid i eraill | |

**3.**

Yma mae yna 8 sefyllfa wahanol lle mae rhywun wedi cael cam mewn rhyw ffordd.

1. Defnyddia'r cod lliw i amlygu'r sefyllfaoedd y gallet ti yn bersonol eu maddau gydag un lliw, a'r rhai na allet eu maddau mewn lliw arall.

2. Ysgrifenna dy syniad dy hun ar gyfer sefyllfa y byddet ti'n ei chael yn anodd neu'n amhosib ei maddau yn y blwch gwag.

Cod Lliw:

Maddeuant ☐

Dim Maddeuant ☐

| | | |
|---|---|---|
| Mae ffrind yn benthyg iPod ac yn ei dorri'n ddamweiniol. Dydi'r ffrind ddim yn cyfaddef, ac yn mynnu ei fod wedi torri pan gafodd o'r iPod. | Rwyt ti'n darganfod bod dy bartner wedi dy dwyllo gydag un o dy ffrindiau. Maen nhw mewn perthynas erbyn hyn. | Mae rhywun yn dy daro trwy gamgymeriad ond yn cerdded i ffwrdd heb ymddiheuro. |
| Er cael gwahoddiad i dy barti, mae dy ffrind gorau yn anghofio prynu anrheg pen-blwydd i ti. | Pan yn aros draw yn dy dŷ, mae dy ffrind yn cymryd dy ddillad ac yn honni mai eu rhai nhw oedden nhw erioed. | Mae rhywun wedi bod yn postio straeon amdanat ar-lein sydd ddim yn wir. Yn y diwedd, rwyt ti'n darganfod mai un o dy ffrindiau a dau arall o dy ysgol wnaeth hyn. |
| Rwyt ti'n treulio oesoedd yn gorffen dy waith cartref ac yn gofyn i ffrind ei wirio i ti. Mae dy ffrind yn ei roi i mewn ac yn honni mai ei waith o oedd o. | Mae lleidr yn torri i mewn i dy dy ac yn dwyn gemwaith o werth sentimental. Mae'n ddrwg gan y lleidr am yr hyn a wnaeth, ond chafodd yr eitemau ddim eu dychwelyd. | |

**4.**

**Dyma 5 dyfyniad am faddeuant o Islam.**
**O dan bob un, eglura beth wyt ti'n ei gredu ydi gwir ystyr pob un.**
(Gellir symud y blychau i wirio'r atebion)

1. *"Nid ydym wedi creu y nefoedd a'r ddaear a phopeth yn y canol heb bod iddynt bwrpas. Ac mae'r Awr yn sicr o ddod, felly maddeuwch yn drugarog." (Qur'an 15:85)*

2. *"A'r dial am weithred ddrwg yw gweithred ddrwg debyg, ond pwy bynnag sy'n maddau ac yn cymodi - mae ei wobr [yn ddyledus] gan Allah. Yn wir, nid yw Ef yn hoffi drwgweithredwyr." (Qur'an 42:40)*

3. *"A phwy bynnag sy'n amyneddgar ac yn maddau – yn wir, mae hynny o'r materion [sy'n deilwng] o gael eu datrys." (Qur'an 42:43)*

*4."Trwy drugaredd Allah yr ydych yn addfwyn wrthynt; a phe buasech wedi bod yn llym a chalon galed, diau y buasent wedi gwasgaru oddi wrthych. Felly esgusodwch nhw, ac ymbiliwch am faddeuant iddyn nhw, ac ymgynghorwch â nhw yn y materion, ac ar ôl eu datrys, ymddiriedwch yn Allah. Yn wir, mae Allah yn caru'r rhai sy'n ymddiried ynddo Ef." (Qur'an 3:159)*

*5."Peidiwch â gadael i'r bobl rinweddol a chyfoethog yn eich plith dyngu i atal rhoddion i'w perthnasau, yr anghenus, a'r ymfudwyr yn achos Allah. Gadewch iddyn nhw roi pardwn a maddeuant. Onid ydych chi'n caru cael maddeuant gan Allah? Ac mae Allah yn Holl-faddeuol, y Mwyaf Trugarog." (Qur'an 24:22)*